



HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 30 Hydref 2013
Tabled on 30 October 2013

Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Social Services and Well-being (Wales) Bill

- Gwenda Thomas** 277
Section 1, page 2, line 18, leave out ‘defines “looked after child”’ and insert ‘provides for the interpretation of references to a child or young person looked after by a local authority’.
Adran 1, tudalen 2, llinell 18, hepgorer ‘diffinio “plentyn sy’n derbyn gofal”’ a mewnosoder ‘darparu ar gyfer dehongli’r cyfeiriadau at blentyn neu berson ifanc sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol’.
- Gwenda Thomas** 278
Section 1, page 2, line 20, leave out ‘looked after children’ and insert ‘the children they look after’.
Adran 1, tudalen 2, llinell 20, hepgorer ‘i blant sy’n derbyn gofal’ a mewnosoder ‘i’r plant y maent yn gofalu amdanynt’.
- Gwenda Thomas** 279
Section 1, page 2, line 27, leave out ‘accommodation, maintenance or’.
Adran 1, tudalen 2, llinell 28, hepgorer ‘llety, cynhaliaeth neu’.
- Gwenda Thomas** 280
Section 1, page 2, line 27, leave out ‘children’ and insert ‘young people’.
Adran 1, tudalen 2, llinell 28, hepgorer ‘blant’ a mewnosoder ‘bobl ifanc’.

Gwenda Thomas 281

Section 1, page 2, line 28, after 'leaving', insert ', or who have left,'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 29, ar ôl 'gadael', mewnosoder ', neu sydd wedi gadael,'.

Gwenda Thomas 282

Section 1, page 2, line 30, leave out '(sections 88 to 96);' and insert—

'(iv) with respect to whom special guardianship orders are or were in force;
(sections 88 to 96);'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 31, hepgorer '(adrannau 88 i 96);' a mewnosoder—

'(iv) y mae neu yr oedd gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig mewn grym
mewn cysylltiad â hwy;
(adrannau 88 i 96);'.

Gwenda Thomas 283

Section 1, page 2, line 31, leave out 'looked after children or children' and insert 'children looked after by local authorities or local authorities in England or children of a description'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 33, hepgorer 'neu blant' a mewnosoder 'gan awdurdodau lleol neu awdurdodau lleol yn Lloegr neu blant o ddisgrifiad'.

Gwenda Thomas 284

Section 1, page 2, line 34, after 'authorities' at the second place where it appears, insert 'or'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 35, ar ôl 'addysg', mewnosoder 'neu'.

Gwenda Thomas 285

Section 1, page 2, line 35, after 'of', insert 'visits and'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 36, ar ôl 'darparu', mewnosoder 'ymweliadau a'.

Gwenda Thomas 286

Section 1, page 2, line 36, leave out '2' and insert '1'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 37, hepgorer '2' a mewnosoder '1'.

Gwenda Thomas 287

Section 1, page 2, line 37, leave out 'looked after children' and insert 'children looked after by local authorities'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 38, ar ôl 'gofal', mewnosoder 'gan awdurdodau lleol'.

Gwenda Thomas

288

Section 1, page 4, after line 12, insert –

- () disapplies section 49 of the National Assistance Act 1948 which allows a local authority to meet expenses incurred by any of its officers appointed by the Court of Protection as a deputy (section (*section to be inserted by amendment 395*));

Adran 1, tudalen 4, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

- () yn datgymhwyso adran 49 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 sy'n caniatáu i awdurdod lleol dalu treuliau a dynnir gan unrhyw un neu rai o'i swyddogion a benodir yn ddirprwy gan y Llys Gwarchod (adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 395*));

Gwenda Thomas

289

Section 7, page 8, line 24, after 'organisations', insert '(whether or not the organisations are social enterprises or co-operative organisations)'.

Adran 7, tudalen 8, llinell 26, hepgorer 'gyrff trydydd sector' a mewnosoder 'sefydliadau trydydd sector (p'un a yw'r sefydliadau yn fentrau cymdeithasol neu'n sefydliadau cydweithredol ai peidio)'.

Gwenda Thomas

290

Section 12, page 13, line 4, leave out '(see Part 6 for provision about looked after children)' and insert –

- ,
- (b) a local authority in England,
- (c) a local authority in Scotland, or
- (d) a Health and Social Care trust'.

Adran 12, tudalen 13, llinell 4, hepgorer 'y mae awdurdod lleol yn gofalu amdano (gweler Rhan 6 am y ddarpariaeth ynghylch plant y gofelir amdanynt)' a mewnosoder –

- 'sy'n derbyn gofal gan –
- (a) awdurdod lleol,
- (b) awdurdod lleol yn Lloegr,
- (c) awdurdod lleol yn yr Alban, neu
- (d) ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol'.

Gwenda Thomas

291

Section 23, page 19, line 12, leave out '(see Part 6 for provision about looked after children)' and insert –

- ,
- (b) a local authority in England,
- (c) a local authority in Scotland, or

- (d) a Health and Social Care trust’.

Adran 23, tudalen 19, llinell 13, hepgorer ‘y gofelir amdano gan awdurdod lleol (gweler Rhan 6 am y ddarpariaeth ynghylch plant y gofelir amdanynt)’ a mewnosoder –

‘sy’n derbyn gofal gan –

- (a) awdurdod lleol,
- (b) awdurdod lleol yn Lloegr,
- (c) awdurdod lleol yn yr Alban, neu
- (d) ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol’.

Gwenda Thomas

292

Section 24, page 19, line 26, leave out ‘(see Part 6 for provision about looked after children)’ and insert –

‘

- (b) a local authority in England,
- (c) a local authority in Scotland, or
- (d) a Health and Social Care trust’.

Adran 24, tudalen 19, llinell 27, hepgorer ‘y gofelir amdano gan awdurdod lleol (i weld y ddarpariaeth ynghylch plant y gofelir amdanynt gweler Rhan 6)’ a mewnosoder –

‘sy’n derbyn gofal gan –

- (a) awdurdod lleol,
- (b) awdurdod lleol yn Lloegr,
- (c) awdurdod lleol yn yr Alban, neu
- (d) ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol’.

Gwenda Thomas

293

Section 43, page 34, line 2, leave out ‘sections 45 and’ and insert ‘section 45 or’.

Adran 43, tudalen 34, llinell 2, hepgorer ‘adrannau 45 a’ a mewnosoder ‘adran 45 neu’.

Gwenda Thomas

294

Section 58, page 43, line 7, leave out ‘any reference to a child who is looked after by a local authority (“a looked after child”)’ and insert ‘a reference to a child who is looked after by a local authority’.

Adran 58, tudalen 43, llinell 7, hepgorer ‘unrhyw gyfeiriad at blentyn sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol (“plentyn sy’n derbyn gofal”)’ a mewnosoder ‘cyfeiriad at blentyn sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol’.

Gwenda Thomas **295**

Section 58, page 43, line 12, leave out '93 or 94' and insert '94 or (section to be inserted by amendment 361)'.

Adran 58, tudalen 43, llinell 12, hepgorer '93 neu 94' a mewnosoder '94 neu (yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 361)'.

Gwenda Thomas **296**

Section 58, page 43, after line 14, insert—

'(3) In this Part, a reference to a young person being looked after by a local authority is a reference to a young person being looked after by the authority while he or she is a child.'

Adran 58, tudalen 43, ar ôl llinell 14, mewnosoder—

'(3) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at berson ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn gyfeiriad at berson ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod tra bo'n blentyn.'

Gwenda Thomas **297**

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 68, tudalen 50, llinell 8, hepgorer 'ganiatâd' a mewnosoder 'gydsyniad'.

Gwenda Thomas **298**

Section 88, page 59, line 3, leave out '96' and insert '(section to be inserted by amendment 361)'.

Adran 88, tudalen 59, llinell 3, hepgorer '96' a mewnosoder '(yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 361)'.

Gwenda Thomas **299**

Section 88, page 59, line 8, after 'authority', insert 'or a local authority in England'.

Adran 88, tudalen 59, llinell 8, ar ôl 'lleol', mewnosoder 'neu awdurdod lleol yn Lloegr'.

Gwenda Thomas **300**

Section 88, page 59, line 13, after 'authority', insert 'or a local authority in England'.

Adran 88, tudalen 59, llinell 14, ar ôl 'lleol', mewnosoder 'neu awdurdod lleol yn Lloegr'.

Gwenda Thomas **301**

Section 88, page 59, line 14, leave out 'was, before last ceasing to be looked after,' and insert 'immediately before ceasing to be looked after, was'.

Adran 88, tudalen 59, llinell 15, hepgorer 'cyn y tro olaf' a mewnosoder 'yn union cyn'.

Gwenda Thomas

302

Section 88, page 59, line 15, leave out –

‘who –

- (a) has attained the age of 18, and
 - (i) has been a category 2 young person, or
 - (ii) was being looked after by a local authority when the young person attained the age of 18 and, immediately before ceasing to be looked after, was a category 1 young person, and
- (b) either –
 - (i) has not attained the age of 21, or
 - (ii) has attained the age of 21 and is pursuing or wishes to pursue a programme of education or training which starts before the person attains the age of 25;’

And insert –

‘aged 18 or over who –

- () has been a category 2 young person (and would continue to be so if he or she were under the age of 18), or
- () was being looked after by a local authority when he or she reached the age of 18 and, immediately before ceasing to be looked after, was a category 1 young person;

“category 4 young person” means a person who –

- (a) is a category 3 young person towards whom the duties under sections 89, 90, 91(3) and (7) and 93 have ceased to apply (see section (*section to be inserted by amendment 341*)),
- (b) has informed the responsible local authority that he or she is pursuing, or wishes to pursue, a programme of education or training, and
- (c) has not reached the age of 25 or any lower age specified;’.

Adran 88, tudalen 59, llinell 17, hepgorer –

‘ –

- (a) sydd wedi cyrraedd 18 oed, ac
 - (i) sydd wedi bod yn berson ifanc categori 2, neu
 - (ii) a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol pan gyrhaeddodd 18 oed, ac, yn union cyn i’r gofal a ddarparwyd iddo ddod i ben, oedd yn berson ifanc categori 1, a
- (b) naill ai –
 - (i) sydd heb gyrraedd 21 oed, neu
 - (ii) sydd wedi cyrraedd 21 oed, ac sy’n dilyn neu sy’n dymuno dilyn rhaglen addysg neu hyfforddiant sy’n dechrau cyn i’r person gyrraedd 25 oed;’

A mewnosoder –

‘sy’n 18 oed neu drosodd –

- () sydd wedi bod yn berson ifanc categori 2 (ac a fyddai’n parhau i fod felly pe bai o dan 18 oed), neu
- () a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol pan gyrhaeddodd 18 oed ac a oedd, yn union cyn i’r gofal a ddarparwyd iddo ddod i ben, yn berson ifanc categori 1;

ystyr “person ifanc categori 4” yw person –

- (a) sy’n berson ifanc categori 3 y mae’r dyletswyddau o dan adrannau 89, 90, 91(3) a (7) a 93 wedi peidio â bod yn gymwys iddo (gweler adran (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 341*)),
- (b) sydd wedi hysbysu’r awdurdod lleol cyfrifol ei fod yn dilyn, neu ei fod yn dymuno dilyn, rhaglen addysg neu hyfforddiant, ac
- (c) sydd heb gyrraedd 25 oed neu unrhyw oedran is a bennir;’.

Gwenda Thomas

303

Section 88, page 59, line 26, leave out ‘4 young person’ means a person who’ and insert ‘5 young person’ means a person’.

Adran 88, tudalen 59, llinell 28, hepgorer ‘4’ a mewnosoder ‘5’.

Gwenda Thomas

304

Section 88, page 59, line 27, leave out ‘has attained the age of 16 but has not attained’ and insert ‘who has reached the age of 16 but has not yet reached’.

Adran 88, tudalen 59, llinell 29, ar ôl ‘oed’ yn yr ail le y mae’n ymddangos, mewnosoder ‘eto’.

Gwenda Thomas

305

Section 88, page 59, line 29, leave out ‘attained the age of 18, was in force when he or she attained’ and insert ‘reached the age of 18, was in force when he or she reached’.

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

Gwenda Thomas

306

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 88, tudalen 59, llinell 30, hepgorer ‘gwarchodaeth’ a mewnosoder ‘gwarcheidiaeth’.

Gwenda Thomas

307

Section 88, page 59, line 33, leave out –

‘5 young person’ means a person, not being a category 4 young person, who –

- (a) has not attained the age of 21, and

- (b) at any time after attaining the age of 16 but while still a child was, but is no longer, looked after, accommodated or fostered;

And insert –

‘6 young person’ means a person, other than a category 5 young person, who –

- () at any time after reaching the age of 16 but while still a child was, but is no longer, looked after, accommodated or fostered,
- () if so accommodated or fostered, is now within Wales, and
- () has not yet reached the age of 21.’.

Adran 88, tudalen 59, llinell 35, hepgorer –

‘5’ yw person ifanc, nad yw’n berson ifanc categori 4 –

- (a) sydd heb gyrraedd 21 oed, a
- (b) a oedd, ar unrhyw adeg ar ôl cyrraedd 16 oed ond tra oedd yn dal yn blentyn, yn derbyn gofal neu wedi ei letya neu ei faethu ond nad yw’n derbyn gofal nac yn cael ei letya na’i faethu mwyach’

A mewnosoder –

‘6’ yw person, ac eithrio person ifanc categori 5 –

- () a oedd, ar unrhyw adeg ar ôl cyrraedd 16 oed ond tra oedd yn dal yn blentyn, yn derbyn gofal neu wedi ei letya neu ei faethu ond nad yw’n derbyn gofal nac yn cael ei letya na’i faethu mwyach,
- () os oedd wedi ei letya neu ei faethu felly, sydd bellach o fewn Cymru, ac
- () sydd heb gyrraedd 21 oed eto’.

Gwenda Thomas

308

Section 88, page 60, line 3, leave out ‘5’ and insert ‘6’.

Adran 88, tudalen 60, llinell 4, hepgorer ‘5’ a mewnosoder ‘6’.

Gwenda Thomas

309

Section 88, page 60, line 5, after ‘authority’, insert ‘(without subsequently being looked after by a local authority in England)’.

Adran 88, tudalen 60, llinell 6, ar ôl ‘lleol’, mewnosoder ‘(heb fod yn derbyn gofal wedyn gan awdurdod lleol yn Lloegr)’.

Gwenda Thomas

310

Section 88, page 60, line 9, leave out –

- ‘any Local Health Board, Special Health Authority or Primary Care Trust or by a local authority in the exercise of education functions, or
- (ii) in any care home or independent hospital or in any accommodation provided by a NHS’

And insert—

- ‘or on behalf of a Local Health Board or Special Health Authority,
- () by or on behalf of a clinical commissioning group or the National Health Service Commissioning Board,
 - () by or on behalf of a local authority in the exercise of education functions,
 - () by or on behalf of a local authority in England in the exercise of education functions,
 - () in any care home or independent hospital, or
 - () in any accommodation provided by or on behalf of an NHS Trust or by or on behalf of an NHS Foundation’.

Adran 88, tudalen 60, llinell 10, hepgorer—

- ‘unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol, Awdurdod Iechyd Arbennig neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol neu gan awdurdod lleol wrth arfer swyddogaethau addysg, neu
- (ii) mewn unrhyw gartref gofal neu ysbyty annibynnol, neu mewn unrhyw lety a ddarperir gan ymddiriedolaeth’

A mewnosoder—

- ‘neu ar ran Bwrdd Iechyd Lleol neu Awdurdod Iechyd Arbennig,
- () gan neu ar ran grŵp comisiynu clinigol neu Fwrdd Comisiynu’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol,
 - () gan neu ar ran awdurdod lleol wrth arfer swyddogaethau addysg,
 - () gan neu ar ran awdurdod lleol yn Lloegr wrth arfer swyddogaethau addysg,
 - () mewn unrhyw gartref gofal neu ysbyty annibynnol, neu
 - () mewn unrhyw lety a ddarperir gan neu ar ran Ymddiriedolaeth GIG neu gan neu ar ran Ymddiriedolaeth Sefydliad’.

Gwenda Thomas

311

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 88, tudalen 60, llinell 18, ar ôl ‘“awdurdod’ yn yr ail le y mae’n ymddangos, mewnosoder ‘lleol’.

Gwenda Thomas

312

Section 88, page 60, line 16, leave out ‘in relation to a young person’.

Adran 88, tudalen 60, llinell 18, hepgorer ‘, o ran person ifanc,’.

Gwenda Thomas 313

Section 88, page 60, line 19, leave out 'or category 3 young person or a category 5 young person who was looked after by a local authority, the one' and insert ', category 3 or category 4 young person, the local authority'.

Adran 88, tudalen 60, llinell 22, hepgorer 'neu gategori 3 neu berson ifanc categori 5 a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, yr un olaf a fu'n gofalu am y person hwnnw' a mewnosoder ', categori 3 neu gategori 4, yr awdurdod lleol a fu'n gofalu am y person hwnnw olaf'.

Gwenda Thomas 314

Section 88, page 60, line 22, leave out '4' and insert '5'.

Adran 88, tudalen 60, llinell 25, hepgorer '4' a mewnosoder '5'.

Gwenda Thomas 315

Section 88, page 60, after line 23, insert—

'() in relation to a category 6 young person falling within that category by virtue of paragraph (a) of subsection (3), the local authority which last looked after that person;'

Adran 88, tudalen 60, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

'() mewn perthynas â pherson ifanc categori 6 sy'n dod o fewn y categori hwnnw yn rhinwedd paragraff (a) o is-adran (3), yr awdurdod lleol a fu'n gofalu am y person hwnnw olaf;'

Gwenda Thomas 316

Section 88, page 60, line 24, leave out '5 young person falling within paragraph (b) or (c) of subsection (3)' and insert '6 young person falling within that category by virtue of any other paragraph of that subsection'.

Adran 88, tudalen 60, llinell 27, hepgorer '5 sy'n dod o fewn paragraffau (b) neu (c) o is-adran (3)' a mewnosoder '6 sy'n dod o fewn y categori hwnnw yn rhinwedd unrhyw baragraff arall o'r is-adran honno'.

Gwenda Thomas 317

Section 88, page 60, line 26, leave out subsection (6).

Adran 88, tudalen 60, llinell 29, hepgorer is-adran (6).

Gwenda Thomas 318

Section 88, page 60, line 31, leave out 'duties under sections 89 to 94' and insert 'powers or duties under sections 89 to (section to be inserted by amendment 361)'.

Adran 88, tudalen 60, llinell 34, hepgorer 'dyletswyddau yn adrannau 89 i 94' a mewnosoder 'pwerau neu'r dyletswyddau o dan adrannau 89 i (yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 361)'.

Gwenda Thomas **319**

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 89, tudalen 61, llinell 9, hepgorer 'i awdurdod lleol' a mewnosoder 'i'r awdurdod lleol cyfrifol'.

Gwenda Thomas **320**

Section 89, page 61, after line 11, insert—

'() In the case of a category 3 young person, the duties under subsections (1) and (2) are subject to section (*section to be inserted by amendment 341*).'

Adran 89, tudalen 61, ar ôl llinell 11, mewnosoder—

'() Yn achos person ifanc categori 3, mae'r dyletswyddau o dan is-adrannau (1) a (2) yn ddarostyngedig i adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 341*).'

Gwenda Thomas **321**

Section 89, page 61, line 12, leave out '5 young person must take reasonable steps to contact the young person at such times as it thinks appropriate with a view to discharging its functions under section 94' and insert '6 young person falling within that category by virtue of section 88(3)(a) must take reasonable steps to contact the young person at such times as it thinks appropriate with a view to discharging its functions under section (*section to be inserted by amendment 361*)'.

Adran 89, tudalen 61, llinell 12, hepgorer 'i awdurdod lleol sy'n awdurdod lleol cyfrifol i berson ifanc categori 5 gymryd camau rhesymol i gysylltu â'r person ifanc ar y fath adegau y mae'n eu hystyried yn briodol gyda golwg ar gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 94' a mewnosoder 'i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 6 sy'n dod o fewn y categori hwnnw yn rhinwedd adran 88(3)(a) gymryd camau rhesymol i gysylltu â'r person ifanc ar yr adegau hynny y mae'n eu hystyried yn briodol gyda golwg ar gyflawni ei swyddogaethau o dan adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 361*)'.

Gwenda Thomas **322**

Section 90, page 61, after line 21, insert—

'(d) a category 4 young person'.

Adran 90, tudalen 61, ar ôl llinell 21, mewnosoder—

'(d) person ifanc categori 4'.

Gwenda Thomas **323**

Section 90, page 61, after line 21, insert—

'() The duty under subsection (1)—

(a) in the case of a category 3 young person, is subject to section (*section to be inserted by amendment 341*);

(b) in the case of a category 4 young person, is subject to section (*section to be inserted by amendment 343*).'

Adran 90, tudalen 61, ar ôl llinell 21, mewnosoder—

- ‘() Mae’r ddyletswydd o dan is-adran (1)—
- (a) yn achos person ifanc categori 3, yn ddarostyngedig i adran (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 341*);
 - (b) yn achos person ifanc categori 4, yn ddarostyngedig i adran (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 343*)’.

Gwenda Thomas 324

Section 90, page 61, line 22, leave out subsection (3).

Adran 90, tudalen 61, llinell 22, hepgorer is-adran (3).

Gwenda Thomas 325

Section 91, page 61, line 29, leave out ‘, assistance and’ and insert ‘and other’.

Adran 91, tudalen 61, llinell 30, hepgorer ‘, cynhorthwy a chymorth’ a mewnosoder ‘a chymorth arall’.

Gwenda Thomas 326

Section 91, page 61, line 36, leave out ‘, assistance and’ and insert ‘and other’.

Adran 91, tudalen 61, llinell 36, hepgorer ‘, cynhorthwy a chymorth’ a mewnosoder ‘a chymorth arall’.

Gwenda Thomas 327

Section 91, page 62, line 1, leave out ‘this section’ and insert ‘subsection (1) or (2)’.

Adran 91, tudalen 62, llinell 1, hepgorer ‘yr adran hon’ a mewnosoder ‘is-adran (1) neu (2)’.

Gwenda Thomas 328

Section 91, page 62, line 3, after ‘3’, insert ‘(but see subsection (*first subsection to be inserted by amendment 334*))’.

Adran 91, tudalen 62, llinell 2, ar ôl ‘3’, mewnosoder ‘(ond gweler is-adran (*yr is-adran cyntaf sy’n cael ei fewnosod gan welliant 334*))’.

Gwenda Thomas 329

Section 91, page 62, after line 3, insert—

- ‘() The responsible local authority for a category 4 young person must carry out an assessment of the young person’s needs with a view to determining what advice and other support (if any) it would be appropriate for it to provide to the young person under this Part.

- () In conducting an assessment under subsection (*first subsection to be inserted by amendment 329*), the local authority may take into account any duty that it may have to make a payment to the young person under section (*section to be inserted by amendment 342*)(2).
- () After conducting an assessment under subsection (*first subsection to be inserted by amendment 329*), the local authority must prepare a pathway plan.’.

Adran 91, tudalen 62, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i’r awdurdod lleol sy’n gyfrifol am berson ifanc categori 4 gynnal asesiad o anghenion y person ifanc gyda golwg ar ddyfarnu pa gyngor a chymorth arall (os oes cyngor a chymorth arall) y byddai’n briodol iddo eu darparu i’r person ifanc o dan y Rhan hon.
- () Wrth gynnal asesiad o dan is-adran (*yr is-adran cyntaf sy’n cael ei fewnosod gan welliant 329*), caiff yr awdurdod lleol ystyried unrhyw ddyletswydd a all fod ganddo i wneud taliad i’r person ifanc o dan adran (*yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 342*)(2).
- () Ar ôl cynnal asesiad o dan is-adran (*yr is-adran cyntaf sy’n cael ei fewnosod gan welliant 329*), rhaid i’r awdurdod lleol lunio cynllun llwybr.’.

Gwenda Thomas

330

Section 91, page 62, line 6, leave out ‘, assistance and’ and insert ‘and other’.

Adran 91, tudalen 62, llinell 5, hepgorer ‘, y cynhorthwy a’r cymorth’ a mewnosoder ‘a’r cymorth arall’.

Gwenda Thomas

331

Section 91, page 62, line 10, leave out ‘or category 3 young person, the advice, assistance and support which the local authority intends to provide’ and insert ‘, category 3 or category 4 young person, the advice and other support which the local authority intends to provide for the young person’.

Adran 91, tudalen 62, llinell 9, hepgorer ‘neu gategori 3, y cyngor, y cynhorthwy a’r cymorth y mae’r awdurdod lleol yn bwriadu eu darparu’ a mewnosoder ‘, categori 3 neu gategori 4, y cyngor a’r cymorth arall y mae’r awdurdod lleol yn bwriadu eu darparu i’r person ifanc’.

Gwenda Thomas

332

Section 91, page 62, line 16, leave out ‘who is’ and insert ‘the persons who are’.

Adran 91, tudalen 62, llinell 15, hepgorer ‘â phwy y dylid ymgynghori’ a mewnosoder ‘y personau y dylid ymgynghori â hwy’.

Gwenda Thomas

333

Section 91, page 62, line 21, after ‘review’, insert ‘(but see subsections (*first subsection to be inserted by amendment 334*) and (*second subsection to be inserted by amendment 334*))’.

Adran 91, tudalen 62, llinell 19, ar ôl ‘gyson’, mewnosoder ‘(ond gweler is-adrannau (*yr is-adran cyntaf sy’n cael ei fewnosod gan welliant 334*) a (*yr ail is-adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 334*))’.

Gwenda Thomas

334

Section 91, page 62, after line 23, insert—

- '(9) In the case of a category 3 young person, the duties under subsections (3) and (7) are subject to section (*section to be inserted by amendment 341*).
- (10) In the case of a category 4 young person, the duty under subsection (7) is subject to section (*section to be inserted by amendment 343*).'

Adran 91, tudalen 62, ar ôl llinell 21, mewnosoder—

- '(9) Yn achos person ifanc categori 3, mae'r dyletswyddau o dan is-adrannau (3) a (7) yn ddarostyngedig i adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 341*).
- (10) Yn achos person ifanc categori 4, mae'r ddyletswydd o dan is-adran (7) yn ddarostyngedig i adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 343*).'

Gwenda Thomas

335

Section 92, page 62, line 25, leave out 'A local authority which is'.

Adran 92, tudalen 62, llinell 23, hepgorer 'i awdurdod lleol sydd yn awdurdod lleol cyfrifol dros' a mewnosoder 'i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am'.

Gwenda Thomas

336

Section 92, page 62, line 35, leave out 'Subsections (4) and (5) of section 62 apply in relation to any decision by a local authority for the purposes of this section as they apply' and insert 'Section 62(3) applies in relation to any decision by a local authority for the purposes of this section as it applies'.

Adran 92, tudalen 62, llinell 32, hepgorer 'is-adrannau (4) a (5) o adran 62 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad gan awdurdod lleol at ddibenion yr adran hon fel y bônt yn' a mewnosoder 'adran 62(3) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad gan awdurdod lleol at ddibenion yr adran hon fel y bo'n'.

Gwenda Thomas

337

Section 93, page 63, line 2, leave out 'A local authority which is'.

Adran 93, tudalen 63, llinell 2, hepgorer 'i awdurdod lleol sy'n awdurdod lleol cyfrifol dros' a mewnosoder 'i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am'.

Gwenda Thomas

338

Section 93, page 63, line 3, leave out—

'(to the extent that the young person's well-being requires it) by—

- (a) contributing to expenses incurred by the young person in living near the place where he or she is, or will be, employed or seeking employment;
- (b) contributing to expenses incurred by the young person in living near the place where he or she is, or will be, receiving education or training;
- (c) making a grant to the young person to enable him or her to meet expenses

connected with his or her education or training;

(d) doing anything else it considers appropriate.'

And insert—

'by—

- () contributing, to the extent that the young person's well-being requires it, to expenses incurred by the young person in living near the place where he or she is, or will be, employed or seeking employment;
- () contributing, to the extent that the young person's well-being and educational or training needs require it, to expenses incurred by the young person in living near the place where he or she is, or will be, receiving education or training;
- () making a grant to the young person, to the extent that the young person's well-being and educational or training needs require it, to enable him or her to meet expenses connected with his or her education or training;
- () doing anything else it considers appropriate, to the extent that the young person's well-being requires it.'

Adran 93, tudalen 63, llinell 3, hepgorer—

'(i'r graddau y bo'n ofynnol i'w lesiant) drwy—

- (a) cyfrannu at dreuliau a dynnir gan y person ifanc wrth iddo fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn cael ei gyflogi neu yn chwilio am waith cyflogedig;
- (b) cyfrannu at dreuliau a dynnir gan y person ifanc wrth iddo fyw yn agos at y man lle mae, neu y bydd, yn derbyn addysg neu hyfforddiant;
- (c) gwneud grant i'r person ifanc i'w alluogi i gwrdd â threuliau sy'n gysylltiedig â'i addysg neu ei hyfforddiant;
- (d) gwneud unrhyw beth arall sy'n briodol yn ei farn ef.'

A mewnosoder—

'drwy—

- () cyfrannu, i'r graddau y bo'n ofynnol i lesiant y person ifanc, at dreuliau a dynnir gan y person ifanc wrth iddo fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn cael ei gyflogi neu yn chwilio am waith cyflogedig;
- () cyfrannu, i'r graddau y bo'n ofynnol i lesiant ac anghenion addysg neu hyfforddiant y person ifanc, at dreuliau a dynnir gan y person ifanc wrth iddo fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn derbyn addysg neu hyfforddiant;
- () gwneud grant i'r person ifanc, i'r graddau y bo'n ofynnol i lesiant ac anghenion addysg neu hyfforddiant y person ifanc, i'w alluogi i dalu treuliau sy'n gysylltiedig â'i addysg neu ei hyfforddiant;
- () gwneud unrhyw beth arall sy'n briodol yn ei farn ef, i'r graddau y bo'n ofynnol i lesiant y person ifanc.'

Gwenda Thomas

339

Section 93, page 63, line 12, leave out '(1) may be in kind or, in exceptional circumstances,' and insert '(1)(d) may be in kind or'.

Adran 93, tudalen 63, llinell 11, hepgorer '(1) fod ar ffurf da neu, o dan amgylchiadau eithriadol,' a mewnosoder '(1)(d) fod ar ffurf da neu'.

Gwenda Thomas

340

Section 93, page 63, line 14, leave out subsections (3) to (6) and insert –

- () The responsible local authority for a category 3 young person who pursues higher education in accordance with his or her pathway plan must pay the relevant amount to that young person.
- () The duty under subsection (*first subsection to be inserted by amendment 340*) is in addition to the responsible local authority's duty under subsection (1).
- () Subsection (*fourth subsection to be inserted by amendment 340*) applies where the responsible local authority for a category 3 young person is satisfied that the young person –
 - (a) is in full-time further or higher education,
 - (b) is being given support under subsection (1) (*second paragraph to be inserted by amendment 338*) or (*third paragraph to be inserted by amendment 338*) or has received a payment under subsection (*first subsection to be inserted by amendment 340*), and
 - (c) needs accommodation during a vacation because term-time accommodation is not available.
- () The responsible authority must –
 - (a) provide the young person with suitable accommodation during the vacation, or
 - (b) pay the young person enough to secure such accommodation.
- () The duties under this section are subject to section (*section to be inserted by amendment 341*).

Adran 93, tudalen 63, llinell 13, hepgorer is-adrannau (3) hyd at (6) a mewnosoder –

- '(3) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 3 sy'n dilyn addysg uwch yn unol â'i gynllun llwybr dalu'r swm perthnasol i'r person ifanc hwnnw.
- (4) Mae'r ddyletswydd o dan is-adran (*yr is-adran cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan welliant 340*) yn ychwanegol at ddyletswydd yr awdurdod lleol cyfrifol o dan is-adran (1).
- (5) Mae is-adran (*y bedwaredd is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 340*) yn gymwys pan fo'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 3 wedi ei fodloni –
 - (a) bod y person ifanc mewn addysg bellach neu uwch lawnamser,
 - (b) bod y person ifanc yn cael cymorth o dan is-adran (1) (*yr ail baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 338*) neu (*yr trydydd baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 338*) neu wedi cael taliad o dan is-adran (*yr is-adran cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan welliant 340*), ac
 - (c) bod angen llety ar y person ifanc yn ystod gwyliau am nad yw llety yn ystod y tymor ar gael.

- (6) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol –
 - (a) darparu llety addas i'r person ifanc yn ystod y gwyliau, neu
 - (b) talu digon i'r person ifanc i sicrhau llety o'r fath.
- (7) Mae'r dyletswyddau o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 341*).

Gwenda Thomas

341

To insert a new section –

'() Cessation of duties in relation to category 3 young people

- (1) A responsible local authority's duties towards a category 3 young person cease when the young person reaches the age of 21, except in the circumstances set out in subsection (2).
- (2) Where the category 3 young person's pathway plan sets out a programme of education or training which extends beyond the date on which he or she reaches the age of 21 –
 - (a) the duties under section 93(1)(*second paragraph to be inserted by amendment 338*) and (*third paragraph to be inserted by amendment 338*), (*first subsection to be inserted by amendment 340*) and (*fourth subsection to be inserted by amendment 340*) continue until the young person ceases to pursue that programme, and
 - (b) the duties under sections 89, 90 and 91(3) and (7) continue concurrently with those duties and cease at the same time.
- (3) For the purposes of subsection (2)(a), the responsible local authority must disregard any interruption in the young person's pursuance of a programme of education or training if it is satisfied that the young person will resume the programme as soon as is reasonably practicable.'

I fewnosod adran newydd –

'() Dyletswyddau yn dod i ben mewn perthynas â phobl ifanc categori 3

- (1) Mae dyletswyddau awdurdod lleol cyfrifol tuag at berson ifanc categori 3 yn dod i ben pan fydd y person ifanc yn cyrraedd 21 oed, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a nodir yn is-adran (2).
- (2) Pan fo cynllun llwybr person ifanc categori 3 yn nodi rhaglen addysg neu hyfforddiant sy'n estyn y tu hwnt i'r dyddiad y bydd y person ifanc yn cyrraedd 21 oed –
 - (a) mae'r dyletswyddau o dan adran 93(1)(*yr ail baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 338*) ac (*y trydydd baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 338*), (*yr is-adran cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan welliant 340*) a (*y bedwaredd is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 340*) yn parhau hyd nes bod y person ifanc yn peidio â dilyn y rhaglen, a
 - (b) mae'r dyletswyddau o dan adrannau 89, 90 ac 91(3) a (7) yn parhau'n gydredol â'r dyletswyddau hynny ac yn dod i ben ar yr un pryd.
- (3) At ddibenion is-adran (2)(a), rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol ddiystyru unrhyw amhariad ar raglen addysg neu hyfforddiant y mae'r person ifanc yn ei dilyn os yw wedi ei fodloni y bydd y person ifanc yn ailgydio yn y rhaglen cyn gynted ag y bo'n rhesymol

ymarferol.’.

Gwenda Thomas

342

To insert a new section –

‘(1) Support for category 4 young people

- (1) The responsible local authority for a category 4 young person must support that young person, to the extent that his or her educational or training needs require it, by –
 - (a) contributing to expenses incurred by the young person in living near the place where he or she is, or will be, receiving education or training;
 - (b) making a grant to the young person to enable him or her to meet expenses connected with his or her education or training.
- (2) The responsible local authority for a category 4 young person who pursues higher education in accordance with his or her pathway plan must pay the relevant amount to that young person.
- (3) The duty under subsection (2) is in addition to the responsible local authority’s duty under subsection (1).
- (4) Where the responsible local authority for a category 4 young person is satisfied that the young person is in full-time further or higher education and needs accommodation during a vacation because term-time accommodation is not available, it must –
 - (a) provide the young person with suitable accommodation during the vacation, or
 - (b) pay the young person enough to secure such accommodation.
- (5) The duties under this section are subject to section (*section to be inserted by amendment 343*).’.

I fewnosod adran newydd –

‘(1) Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 4

- (1) Rhaid i’r awdurdod lleol sy’n gyfrifol am berson ifanc categori 4 roi cymorth i’r person ifanc hwnnw, i’r graddau y bo’n ofynnol i’w anghenion addysg neu hyfforddiant, drwy –
 - (a) cyfrannu at dreuliau a dynnir gan y person ifanc wrth iddo fyw yn agos i’r man lle y mae, neu y bydd, yn derbyn addysg neu hyfforddiant;
 - (b) gwneud grant i’r person ifanc i’w alluogi i dalu treuliau sy’n gysylltiedig â’i addysg neu ei hyfforddiant.
- (2) Rhaid i’r awdurdod lleol sy’n gyfrifol am berson ifanc categori 4 sy’n dilyn addysg uwch yn unol â’i gynllun llwybr dalu’r swm perthnasol i’r person ifanc hwnnw.
- (3) Mae’r ddyletswydd o dan is-adran (2) yn ychwanegol at ddyletswydd yr awdurdod lleol cyfrifol o dan is-adran (1).
- (4) Pan fo awdurdod lleol sy’n gyfrifol am berson ifanc categori 4 wedi ei fodloni bod y person ifanc mewn addysg bellach neu uwch lawnamser a bod arno angen llety yn ystod gwyliau am nad yw llety yn ystod y tymor ar gael, rhaid iddo –

- (a) darparu llety addas i'r person ifanc yn ystod y gwyliau, neu
 - (b) talu digon i'r person ifanc i sicrhau llety o'r fath.
